**Ymateb gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
**i'r Comisiwn y Gyfraith ar Dribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru**

Rwy'n falch o gael y cyfle i ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith ar Dribiwnlysoedd Datganoledig yng Nghymru.

**Ein rôl**

Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), rwy'n ymchwilio i gwynion a wnaed gan aelodau o'r cyhoedd sy'n credu eu bod wedi dioddef caledi neu anghyfiawnder drwy gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth gan gorff o fewn fy awdurdodaeth, sydd yn ei hanfod yn cynnwys yr holl sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u datganoli i Gymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- llywodraeth leol (cynghorau sir a chynghorau cymuned)
- y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (gan gynnwys Meddygon Teulu a deintyddion)
- landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (cymdeithasau tai)
- Llywodraeth Cymru, ynghyd â'i chyrff noddedig.

Rwyf hefyd yn gallu ystyried cwynion am ofal cymdeithasol a drefnwyd yn breifat neu ofal cymdeithasol a ariennir, yn ogystal â gwasanaethau gofal lliniarol ac, o dan amgylchiadau penodol, agweddau ar ofal iechyd a ariennir yn breifat.

Bydd y pwerau ymchwilio ar ei liwt ei hun a roddwyd imi o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 (Deddf OGCC 2019) yn fy nghaniatáu i ymchwilio pan fydd tystiolaeth yn awgrymu y gall fod methiannau systematig, hyd yn oed os nad yw defnyddwyr gwasanaeth eu hunain yn codi cwynion. Mae'r Ddeddf hefyd yn sefydlu'r Awdurdod Safonau Cwynion (CSA) i ysgogi gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus trwy gefnogi ymdrin â chwynion yn effeithiol gan ddefnyddio gweithdrefnau enghreifftiol, hyfforddiant a chasglu a chyhoeddi data.

O dan y Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, fy rôl hefyd yw ymchwilio i gwynion am dorri'r Cod ymddygiad ar gyfer aelodau awdurdod lleol yng Nghymru. Pan fyddaf yn dod o hyd i dystiolaeth o dorri'r cod ac yn canfod y dylid cymryd camau pellach, gallaf gyfeirio achosion at Banel Dyfarnu Cymru (tribiwnlys datganoledig) neu at bwyllgor safonau'r awdurdod Lleol perthnasol, yn dibynnu ar ddifrifoldeb yr achos.

## Y cynnig i uno'r agwedd at dribiwnlysoedd yng Nghymru

Rwy'n croesawu'r cynnig i uno'r agwedd at dribiwnlysoedd yng Nghymru.  Byddai system ac agwedd unffurf yn arwain at system dribiwnlys llai cymhleth er defnydd dinasyddion, a byddai'n gwella hygyrchedd y system cyfiawnder gweinyddol yng Nghymru.  Gallai mwy o unffurfiaeth hefyd godi proffil cyhoeddus y tribiwnlysoedd a'r hawliau sydd gan ddinasyddion i ddefnyddio'r system dribiwnlys.

## Tribiwnlysoedd datganoledig

Cytunaf fod y cyrff a restrir yn y ddogfen Ymgynghori (y tribiwnlysoedd a restrir yn Adran 59 Deddf Cymru 2017; Tribiwnlys Prisio Cymru; paneli apelio derbyniadau ysgolion; a phaneli apelio gwaharddiadau ysgolion) yn dribiwnlysoedd datganoledig. Maent yn cyflawni'r rôl o ddyfarnu anghydfodau trwy wneud penderfyniadau cyfrwymol ac maent felly, yn fy marn i, yn dribiwnlysoedd datganoledig:

## Paneli apelio gwaharddiadau a derbyniadau ysgolion

Fel yr amlinellwyd yn y ddogfen Ymgynghori, gall fy swyddfa adolygu penderfyniadau yn ymwneud â chamweinyddu neu fethiant gwasanaeth yn unig. Nid oes gennym unrhyw bŵer cyffredinol i adolygu rhinweddau penderfyniad. Mae fy swyddfa yn cael oddeutu 30 cwyn bob blwyddyn yn ymwneud â phaneli apelio derbyniadau ysgolion.  O'r rhain, nid yw 80 i 90% ohonynt yn cael eu hymchwilio, yn bennaf gan nad ydynt yn ymwneud â chamweinyddu. Mae OGCC yn cael llawer llai o gwynion sy'n deillio o waharddiadau ysgolion.   Yn y blynyddoedd diwethaf, bu'r rhain yn un y flwyddyn yn unig.

## Paneli gwaharddiadau ysgolion

Rwyf o'r farn y byddai dod ag apeliadau o'r fath o dan gylch gwaith y Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (SENTW) yn gwella tryloywder ac unffurfiaeth y broses.  Gall penderfyniad i wahardd plentyn o'r ysgol arwain at ganlyniadau sylweddol i'r unigolyn.  Mae hyder y cyhoedd ym mhroses y panel apelio yn hollbwysig.

Cytunaf hefyd y dylai apeliadau gan baneli apelio ysgolion fod yn nwylo'r SENTW. Credaf y byddai hyn yn darparu dull ac arolygiaeth gyson ar gyfer y broses penderfynu.

Yn fy marn i, dylai unrhyw hawl apelio o'r fath fod yn ddigon eang i ganiatáu i SENTW ystyried amgylchiadau unigol y plentyn a'r effaith y gallai gwrthod ysgol ei chael ar y plentyn unigol, gan ddal y ddysgl yn wastad rhwng hawliau eraill yn yr ysgol.  Gan fod angen gwneud penderfyniadau amserol, os cyflwynir unrhyw broses apelio o'r fath, mae'n hanfodol bod penderfyniadau yn cael eu gwneud mewn modd amserol er mwyn sicrhau nad yw safle plentyn yn cael ei effeithio'n andwyol.

## Paneli derbyniadau ysgolion

Mae maint a natur dymhorol y penderfyniadau apelio hyn yn gofyn am benderfyniadau cyflym ac amserol ar lefel leol. Felly, cytunaf na fyddai'r apeliadau hyn yn cydweddu'n dda o fewn system y SENTW fel haen gyntaf o benderfyniadau apêl.

Fodd bynnag, mae angen i brosesau apelio fod â dull unffurf a thryloywder ar gyfer yr holl dderbyniadau ysgolion er mwyn cynnal hyder yn y broses o ran pob penderfyniad derbyn a wneir gan awdurdod lleol a'r rhai a wneir yn annibynnol.

Felly, cytunaf hefyd y dylai apeliadau gan baneli apelio ysgolion fod yn nwylo'r SENTW. Credaf y byddai hyn yn darparu dull cyson ac arolygiaeth briodol o ran y broses apelio.

**Rôl OGCC o ran paneli gwaharddiadau ysgolion a phaneli apelio ysgolion**

Pe bai apeliadau gwaharddiadau a derbyniadau ysgolion yn dod o fewn system y tribiwnlys datganoledig, credaf y byddai newid o'r fath yn cysoni fy rôl â'r system o ran cwynion yn ymwneud â materion Anghenion Addysgol Arbennig, lle gallaf ystyried cwynion sydd y tu allan i faterion sy'n briodol ar gyfer ystyriaeth y SENTW. (Er enghraifft, cwynion am oedi ym mhroses asesu awdurdod lleol neu fethiant awdurdod lleol i weithredu penderfyniad a wnaed gan dribiwnlys apelio SENTW).

**OGCC**

Rwy'n cytuno nad yw fy swyddfa yn dribiwnlys datganoledig yng Nghymru.

Mae fy mhwerau statudol wedi'u cynnwys o fewn Deddf OGCC 2019. Mae'r ddeddfwriaeth Senedd hon a ddaeth i rym yn ddiweddar yn cael ei hystyried yn "arfer gorau" yn y DU ac yn rhyngwladol o ran y broses penodi ombwdsmon gan y Senedd a'r pwerau deddfwriaethol yn y Ddeddf.

Pan fyddaf yn canfod tystiolaeth o gamweinyddu sydd wedi achosi anghyfiawnder i unigolyn, mae gennyf bwerau i wneud argymhellion i gyrff cyhoeddus. Yn gyffredinol, llunnir argymhellion o'r fath er mwyn:

- unioni'r anghyfiawnder hwnnw i roi'r unigolyn yr effeithiwyd arno yn ôl yn y sefyllfa y byddai wedi bod ynddi pe na bai'r methiant wedi digwydd, a
- sbarduno newid yn narpariaeth gwasanaeth y corff cyhoeddus lle canfuwyd unrhyw fethiannau systematig.

Nid yw fy argymhellion yn gyfrwymol ac os nad yw corff cyhoeddus yn derbyn unrhyw un o'm hargymhellion, mae Deddf OGCC yn darparu mecanwaith ar gyfer ysgogi gweithdrefn adrodd pellach. Mae'r mecanwaith hwn yn darparu system ar gyfer atebolrwydd democrataidd os nad yw cyrff cyhoeddus yn cydymffurfio â'm hargymhellion.

Mae fy swyddfa yn darparu dewis arall i ddinasyddion yng Nghymru yn lle'r system

Llys a Thribiwnlysoedd.  Yn gyffredinol, efallai na fyddaf yn ymchwilio i gwynion pan fydd rhwymedi ar gael i achwynydd drwy'r system llys a thribiwnlys.  Yn ogystal, mae Deddf OGCC yn rhoi disgresiwn eang i mi ynghylch sut yr wyf yn ystyried cwynion a pha ganlyniadau sy'n briodol pan fydd unigolyn wedi dioddef anghyfiawnder o ganlyniad i gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth gan gyrff cyhoeddus.

Nid yw fy swyddfa yn mabwysiadu dull cyfreithiol wrth ymdrin â chwynion.   Mae'r prosesau a gweithdrefnau a fabwysiadir gennyf wedi'u llunio i fod yn hygyrch i ddinasyddion Cymru, er enghraifft, mae Deddf 2019 OGCC yn darparu y gallaf gymryd cwynion llafar gan ddinasyddion sy'n dod i'm swyddfa.

Am y rhesymau hyn ac, gan nad wyf yn gwneud penderfyniadau cyfrwymol ar y cyrff cyhoeddus yn fy awdurdodaeth, nid wyf o'r farn bod rôl a chylch gwaith fy swyddfa fel y'u nodir yn Neddf 2019 OGCC yn cyflawni rôl tribiwnlys datganoledig yng Nghymru.

**Sylwadau cloi**

Hyderaf y bydd fy sylwadau yn ddefnyddiol i chi.  Os dymunwch drafod unrhyw un o'r pwyntiau a wnaed gennym, mae croeso i chi gysylltu â Tanya Nash, fy Mhennaeth Polisi (tanya.nash@ombudsman.wales).



**Nick Bennett**

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

**Mawrth 2021**